Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (Dirybudd)

Ysbyty Brenhinol Morgannwg: Uned Iechyd Meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad arolygu: 11 – 13 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 14 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-7378-2
© Hawlfraint y Goron 2016

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4
2. Methodoleg 5
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth 7
4. Crynodeb 8
5. Canfyddiadau 9
   - Safonau Craidd 9
   - Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl 27
6. Y Camau Nesaf 28
   - Atodiad A 29

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gynnal yr arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)[1]

- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir

[1] Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Ystyried ansawdd y bwyd

- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

3. Cyd-destun a disgrifiad o’r gwasanaeth

Mae un uned iechyd meddwl acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion ar gyfer Cwm Taf i gyd, ac fe’i lleolir yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'r uned yn cynnwys:

- Ward dderbyn - 14 gwely
- Dwy ward driniaeth (Ward 21 a Ward 22) - 14 gwely yn y ddwy ohonynt
- Uned Gofal Dwys Seiciatrig - chwe gwely a Man Gofal Estynedig ag un gwely

Mae'r ward dderbyn yn darparu gwasanaeth claf mewnol ar gyfer oedolion (rhwng 18 a 65 mlwydd oed) sydd angen asesiad dwys a sefydlogi byr dymor, ac mae'n canolbwyntio ar wella'n gynnar, gyda’r claf yn aros rhwng saith a deg diwrnod. Roedd y ward yn rhan o fodel gofal ehangach, lle roedd y tîm yn gweithio ar y cyd â wardiau 21 a 22 (wardiau triniaeth tymor hwy) a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig.

Roedd gwelyau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn hefyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a oedd yn cynnwys:

- Ward Seren - ward asesu iechyd meddwl organig 14 gwely
- Man Gofal Estynedig - uned bum gwely ar gyfer gofal estynedig.
- Ward Dewi Sant - ward asesu iechyd meddwl gweithredol, ac ynddi ddeg gwely.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn darparu dau wasanaeth adsefydlu neilltuedig ar gyfer cleifion mewnol, a leolir yn Nhreorci yng Nghwm Rhondda.

- Mae Tŷ Pinewood yn wasanaeth adsefydlu cymunedol ar gyfer cleifion mewnol, ac iddo 16 gwely, a leolir yn y stryd fawr yng nghanol tref Treorci.
- Mae'r Uned Adferiad â Chymorth yn wasanaeth dibyniaeth uchel ac iddo 15 gwely, a leolir o fewn Ysbyty George Thomas yn Nhreorci.

4. Crynodeb

Roedd ein harolygiad o Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnwys pob un o'r saith ward iechyd meddwl. Canfuom fod llawer o le i wella, ond roeddem hefyd yn falch o nodi rhai canfyddiadau a gwelliannau cadarnhaol ers ein harolygiad diwethaf ym mis Hydref 2015.

Roedd y gwelliannau a wnaed ers ein harolygiad diwethaf yn cynnwys:

- Cynnydd yn y lefelau staffio sy'n gweithio ar y wardiau yn ystod y sifft nos, gyda chymorth gofal iechyd ychwanegol ar Ward 21 a Ward 22.

- Gwelliannau i amgylchedd yr uned, er bod angen gwneud gwelliannau ychwanegol.

- Roedd archwiliadau o bwyntiau clymu wedi cael eu cynnal ar draws yr uned iechyd meddwl yn ddiweddar; yn ystod ein harolygiad diwethaf, nid oedd y rhain yn gyfredol.

- Roedd y byrddau gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ym mhob swyddfa nyrs yn gallu cael eu sgrinio o'r golwg pan nad oeddent yn cael eu defnyddio i gadw cyfrinachedd cleifion. Yn siomedig, gwnaethom weld sawl achlysur pan oeddent yn parhau i fod yn weladwy ar ôl i'r staff orffen eu defnyddio.

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darpariaethau bwyd a maeth ar gyfer y Wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn.

- Y ddarpariaeth o weithgareddau therapiwtig ar gyfer y Wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn.

- Mae angen adolygu systemau cofnodi electronig y cleifion i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw ar un system.

- Y gwaith cynnal a chadw ar wardiau cleifion ar draws y wardiau iechyd meddwl yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Mae'r Uned Iechyd Meddwl yn uned hunangynhwysol, sy'n gyfagos â phrif adeilad Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae gan yr Uned Iechyd Meddwl ei mynedfa a'i derbynfa ei hun, gyda nifer o swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod ar y llawr daear.

Wrth fynd i mewn i'r cyntedd mawr, mae drysau sy'n arwain at nifer o fannau a wardiau, gan gynnwys yr uned gofal dwys seiciatrig a wardiau ar gyfer pobl hŷn: Ward Seren, Man Gofal Estynedig a Ward Dewi Sant. Lleolir y Ward Dderbyn a'r ddwy ward driniaeth i oedolion, Ward 21 a Ward 22, i fyny'r grisiau.

Roedd yn bosibl cael mynediad i'r wardiau i fyny'r grisiau trwy ddefnyddio'r grisiau neu'r lifft. Roedd drysau'r wardiau dan glo a cheir mynediad atynt trwy system ffob neu drwy'r system intercom. Roedd prif ddrws y wardiau ar Ward 21, a byddai staff y ward yn tywys ymwelwyr i'r ward briodol.

Mae'r holl wardiau iechyd meddwl yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn rhyw cymysg.

Gwnaeth ein harolygiad ym mis Hydref 2015 nodi nifer o faterion o ran dyluniad yr amgylchedd na all y bwrdd iechyd rhoi sylw iddynt ar hyn o bryd, a oedd yn cynnwys:

- Roedd gan Ysbyty Brenhinol Morgannwg broblemau drwyddi draw o ran draenio ar y safle, a oedd yn golygu nad oedd rhai cyfleusterau toiled na chawod yn gweithio yn yr uned iechyd meddwl yn rheolaidd. Rydym yn ymwybodol bod y bwrdd iechyd yn parhau i weithio gyda'r adran ystadau i ddatrys y broblem ddraenio.

- Ar wahân i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig, roedd gan yr holl wardiau rhai ystafelloedd wely neu ardaloedd cysgu a rennir ac nid yw hyn yn adlewyrchu darpariaeth ofal iechyd meddwl modern. Mae'r ystafelloedd gwely hyn ond yn caniatáu lefel sylfaenol o breifatrwydd ar gyfer cleifion.

- Roedd y ffaith bod toiledau a chawodydd y wardiau gerllaw mannau cymunol y cleifion ar y ward yn peri risg y gellid peryglu preifatrwydd ac urddas cleifion.

- Y ddarpariaeth ar gyfer wardiau i fenywod a dynion, a dim wardiau ar gyfer un rhyw yn unig.

Er bod y materion hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth o ofal ar draws y wardiau iechyd meddwl yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, deallwn fod y bwrdd iechyd yn mynd i barhau i'w hadolygu er budd y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn y dyfodol.

Wardiau Iechyd Meddwl Oedolion (rhwng 18 a 65 mlwydd oed)

Roedd gan y Ward Dderbyn 14 gwely ar gyfer asesu cleifion, ac roedd gan Ward 21 a Ward 22 14 gwely triniaeth bob un. Yn ystod y dydd, roedd y drysau dwbl a oedd yn gwahanu Ward 21 a Ward 22 ar agor er mwyn caniatáu cleifion i gael mynediad at y ddwy ward; cadwyd y drysau hyn dan glo yn ystod y nos. Roedd yr ystafelloedd gwely ar bob ward wedi'u lleoli gerllaw coridorau i ffwrdd o brif dramwyfa'r wardiau.

Nid oedd Ystafell Wely 2 ar y Ward Dderbyn yn cael ei defnyddio o ganlyniad i ddifrod dŵr; ar adeg ein harolygiad, nid oedd unrhyw ddyddiad wedi'i gadarnhau i nodi pryd byddai'r ystafell hon yn cael ei thrwsio ac ar gael i gleifion.

Roedd gan bob un o'r tair ward hyn gymysgedd o ystafelloedd gwely, gan gynnwys pum ystafell wely sengl â chyfleusterau en suite, a phedair ystafell dau wely ar ffurf ystafell gysgu. Roedd gan bob ystafell wely sengl gyfleusterau en suite, a oedd yn cynnwys cawod, toiled a sinc. Roedd gan yr ystafelloedd gwely wely sengl a lle storio ar gyfer dillad ac eiddo personol. Roedd gan yr ystafelloedd dau wely ar ffurf ystafell gysgu wely a chyfleusterau storio hefyd, a sinc a oedd yn cael ei rannu. Roedd nifer o dai bach a chawodydd/cyfleusterau ymolchi ar wahân ar gyfer menywod a dynion ar bob ward.

Roedd gan yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig chwe ystafell wely unigol, a phob un ohonynt yn cynnwys toiled en suite a chawod. Roedd Man Gofal Ychwanegol a oedd yn cynnwys ystafell gymharol fawr gyda gwely a soffa ac ystafell ymolchi gyffiniol gyda thoiled, sinc a chawod. Defnyddiwyd y Man Gofal Ychwanegol i ddarparu gofal ychwanegol ar gyfer claf i fwrdd o gleifion eraill ar y ward.

Roedd gan bob ward lolfa lle y gallai cleifion eistedd a chymdeithasu gyda'i gilydd. Roedd gan bob lolfa deledu, ond nid oedd y teledu yn lolfa'r Ward Dderbyn yn gweithio ac roedd disgwyl i un newydd gymryd ei le. Yn siomedig,

roedd y ward wedi bod yn aros am deledu newydd ers nifer o wythnosau. Roedd hyn yn effeithio ar brofiad cleifion ar y Ward Dderbyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod teledu newydd yn cael ei osod ar y Ward Dderbyn.

Yn ogystal â'r cyfleusterau toiled a chawod a oedd ar gael yn ystafelloedd y cleifion, mae gan bob ward doiledau ar gyfer menywod a dynion, ynghyd â chyfleusterau cawod a bath. Roedd y mater a nodwyd yn ystod ein harolygiad blaenorol ym mis Hydref 2015, pan nad oedd pedwar cawod en suite yn gweithio ar yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, wedi ei ddatrys.

Gwnaethom sylwi, fodd bynnag, nad oedd y cyfleusterau cawod ar Ward 21 a Ward 22 yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, nac yn ymarferol o ran cynorthwyo cleifion pan fo angen, ac yr oedd angen eu hailwampio o ganlyniad i hyn. Nid oedd y toiled en suite yn Ystafell Wely 4 ar Ward 22 yn gweithio. Roedd yn rhaid i'r claf ddefnyddio'r toiledau ar goridor y ward o ganlyniad i hyn.

Nid yw'r baddonau ar wardiau'r oedolion yn cynnwys offer codi. Cadarnhaodd y staff pe byddai angen offer codi i roi bath i'r claf, byddai'r claf yn defnyddio'r cyfleusterau ar y ward ar gyfer pobl hŷn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau toiled, cawod a bath ar Ward 21 a Ward 22 i sicrhau eu bod yn addas i'w diben.

Roedd pob ward yn cynnwys man gegin dan glo lle y gallai staff rhoi diodydd a byrbrydau i gleifion. Roedd drysau cypyrddau cegin wedi'u torri yn dal i fod ar y Ward Dderbyn ers ein harolygiad diwethaf. Roedd pob un o'r wardiau yn cynnwys ystafelloedd bwyta mawr, ar wahân i Ward 22, a oedd yn cynnwys dwy ystafell fwyta lai.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cabinetau cegin sydd wedi torri ar y Ward Dderbyn yn cael eu trwsio neu'n cael eu newid.

Roedd gan bob ward ystafell gyfarfod/ymwelwyr lle y gallai cleifion siarad â staff neu ymwelwyr yn breifat.

Roedd gan y Ward Dderbyn fan patio bach, a oedd yn cynnwys man awyr agored ar gyfer cleifion; hwn oedd y man a neilltuwyd ar gyfer ysmygu yn y ward. Roedd gan y man fainc, bin a thaniwr sigaréts ar y wal. Roedd y man patio hwn wedi'i wahanu o batio y ward gyfagos gyda ffenestr anhryloyw. Yn

ystod ein harolygiad diwethaf, roedd y ffenestr hon wedi'i thorri ac yn aros i gael ei thrwsio ers sawl mis; roedd yn dda gweld bod y gwaith trwsio hwn wedi cael ei gwblhau.

Y patio cyfagos oedd y man ysmygu ar gyfer Ward 21 a Ward 22. Roedd ardal patio arall ymhellach i lawr ar Ward 21, a ddefnyddiwyd gan gleifion ar Ward 21 a Ward 22. Roedd seddau a bwrdd pren ar y patio hwn, a photiau â blodau ynddynt, a oedd yn gwneud y man yn fwy croesawgar.

Roedd mynediad i'r ardd yn cael ei gyfyngu i 15 munud yr awr yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Mae hwn yn arfer sefydliadedig ac yn cyfyngu ar fynediad cleifion i awyr iach. Dywedodd y staff wrthym fod yr arfer hwn ar waith er mwyn rhwystro cleifion rhag ysmygu drwy gydol y dydd; fodd bynnag, dylai ymddygiad cleifion gael ei reoli ar sail pob unigolyn, ac ni ddylid defnyddio'r un dull ar gyfer pawb.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu mynediad i'r ardd er mwyn diwallu anghenion unigol y cleifion ac osgoi gweithredu arfer sefydliadedig.

Roedd diffyg o ran mannau storio yn yr uned iechyd meddwl, ac er gwaethaf ymdrechion staff y ward, roedd y mannau ar y wardiau, yn enwedig y mannau nad oeddent yn fannau cleifion, yn aml yn anniben.

Roedd y ddwy ward yn cynnwys hysbysfyrddau cleifion a oedd yn dangos gwybodaeth, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth, manylion y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, a Hafal, yn ogystal â thaflenni a phosteri gwybodaeth eraill.

<u>Wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn</u>

Roedd gan Ward Seren 14 gwely, ac roedd yn darparu gofal ar gyfer cleifion sydd ag anghenion iechyd meddwl organig. Roedd gan Ward Dewi Sant ddeg gwely, ac roedd yn darparu gofal i gleifion sydd ag anghenion iechyd meddwl gweithredol. Roedd gan yr Uned Gofal Estynedig bum gwely, ac roedd yn darparu gofal ar gyfer claf yr oedd angen cymorth ychwanegol arno naill ai gan Ward Seren neu Ward Dewi Sant.

Roedd gan y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn gymysgedd o ystafelloedd gwely, gan gynnwys ystafelloedd gwely sengl â chyfleusterau en suite ac ystafelloedd ar ffurf ystafell gysgu. Fodd bynnag, nid oedd yr holl ystafelloedd cysgu yn cynnwys cloc ar gyfer y cleifion. Roedd gan bob ystafell wely sengl gyfleusterau en suite, a oedd yn cynnwys cawod, toiled a sinc. Roedd gan yr ystafelloedd gwely wely sengl a lle storio ar gyfer dillad ac eiddo personol. .

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl fannau i gleifion, gan gynnwys y mannau cysgu, yn cynnwys clociau sy'n addas ar gyfer y cleifion.

Roedd tai bach a chawodydd/cyfleusterau ymolchi ar wahân ar gyfer menywod a dynion ar bob ward. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd yr holl gyfleusterau cymunol yn cynnwys cloeon a oedd yn gweithio er mwyn cadw preifatrwydd cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gloeon yn gweithio ar gyfleusterau cymunol.

Roedd mannau cymunol a oedd ar gael i'r cleifion yn ystod y dydd a chyda'r nos, gan gynnwys lolfeydd, ystafelloedd teledu, ac ystafelloedd bwyta. Roedd gan y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ystafell ysmygu y gallai'r cleifion ei defnyddio pe byddent yn dymuno.

Er bod mannau yn yr awyr agored ar gael yn y wardiau, cawsom ein hysbysu nad oeddent yn cael eu defnyddio'n aml, ac yn ystod yr arolygiad ni welsom y cleifion yn mynd i'r mannau hyn. Dywedodd y staff wrthym ei bod yn anodd hwyluso mynediad at y mannau yn yr awyr agored o ganlyniad i anghenion symudedd y grŵp cleifion, mynediad a chynnal a chadw'r mannau yn yr awyr agored, a lefelau staffio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu mynediad cleifion i'r mannau yn yr awyr agored ar y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn.

Gwnaethom nodi nifer o faterion amgylcheddol yn ystod ein hamser ar Ward Seren. Nid oedd y llenni yn yr ystafell fwyta wedi'u gosod yn iawn ac yn hongian i lawr drwy gydol yr arolygiad. Roedd yr addurniadau yn yr ystafell fwyta yn wael ac roedd nifer o dolcau a marciau ar y gwaith paent yr oedd angen rhoi sylw iddynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r addurniadau yn yr ystafell fwyta ar Ward Seren.

Roedd y bwrdd 'Croeso i'r Ward' y tu allan i swyddfa'r nyrsys yn cynnwys gwybodaeth nad oedd wedi'i hanelu at y grŵp cleifion na'r ymwelwyr. Hefyd,

mae angen adolygu'r arwyddion i gleifion er mwyn gwneud gwelliannau a chyflwyno arwyddion priodol i gynorthwyo'r grŵp cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth a'r arwyddion sy'n cael eu harddangos ar Ward Seren yn briodol i'r grŵp cleifion a'u perthnasau.

Cawsom ein hysbysu bod y staff domestig yn gweithio ar y wardiau o 7am hyd 1pm, ac nid oedd darpariaeth wedi'r adeg honno. Roedd gofyn i'r staff nyrsio gyflawni tasgau domestig ychwanegol yn ôl y gofyn yn ystod oriau y tu allan i 7am hyd 1pm, a golyga hyn fod yr amser a oedd ganddynt ar gyfer cleifion yn cael ei leihau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu mewnbwn y staff domestig i Ward Seren.

Diogelwch

Gwnaethom gyrraedd yr ysbyty gyda'r nos, ac roedd yn gadarnhaol nodi ers ein harolygiad diwethaf bod Ward 21 a Ward 22 yn cynnwys gweithiwr gofal iechyd ychwanegol ar y ddwy ward yn dilyn ein pryderon o ran lefelau staffio a diogelwch ym mis Hydref 2015. Yn ogystal â hyn, roedd gan y ddwy ward fyfyriwr nyrsio ar leoliad a oedd yn weithiwr ychwanegol ar gyfer y sifft, felly roedd Ward 21 a Ward 22 bob un yn cynnwys nyrs gofrestredig, dau weithiwr cymorth gofal iechyd, a myfyriwr nyrsio yn gweithio o'i gymharu â phob ward yn cynnwys un nyrs gofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd fel oedd y sefyllfa ym mis Hydref 2015.

Roedd gan y Ward Dderbyn un nyrs gofrestredig a thri gweithiwr cymorth gofal ychwanegol, ac roedd gan yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig un nyrs gofrestredig a dau weithiwr cymorth gofal iechyd. Dywedodd y staff ar draws y gwasanaeth oedolion eu bod nhw'n barod i gynorthwyo'r ddwy ward yn ôl yr angen, a gwelsom hyn yn ystod y noson.

Er y bu cynnydd o ran y lefelau staffio ar gyfer y nos ar Ward 21 a Ward 22, nid oedd y gweithwyr ychwanegol hyn yn barhaol ac, oherwydd hyn, fe gododd y staff ar y ward eu pryderon ynglŷn â'r ffaith y gall y niferoedd staffio hyn gael eu lleihau ar unrhyw adeg. Cawsom ein hysbysu bod yr uwch-reolwyr yn disgwyl cadarnhad ynglŷn â chyllid er mwyn sicrhau'r lefelau staffio presennol ar gyfer y nos ar y ddwy ward. Mae'n hanfodol i'r lefelau staffio hyn gael eu sicrhau i wneud yn siŵr bod y cleifion a'r staff ar Ward 21 a Ward 22 yn ddiogel yn ystod y nos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau staffio priodol yn cael eu cynnal ar Ward 21 a Ward 22, a chael cadarnhad na fydd y lefelau hyn yn cael eu lleihau.

Os ceir ond un nyrs gofrestredig ar y Ward Dderbyn yn ystod y nos, gall hynny beri anawsterau i'r aelod hwn o'r staff oherwydd natur y ward ac aciwtedd y grŵp cleifion, ynghyd â'r posibilrwydd o dderbyniadau drwy'r nos. Bydd y broses o dderbyn claf yn cymryd cryn dipyn o amser ar gyfer y nyrs gofrestredig, ac felly ni fydd yn gallu cyflawni'r dyletswyddau nyrsio eraill, megis gweinyddu meddyginiaeth, yn ystod y broses o dderbyn. Yn ystod y dydd, bydd y nyrs gofrestredig sydd ar sifft yn cael cefnogaeth gan nyrsys eraill sydd ar gael, megis rheolwr y ward. Dylai'r cymorth ar gyfer nyrsys cofrestredig yn ystod y dydd fod ar gael i'r nyrs gofrestredig sy'n gweithio yn ystod y sifft nos i sicrhau nad yw gofal y claf yn cael ei effeithio o ganlyniad i ofynion y ward sy'n mynd yn groes i'w gilydd yn ystod y nos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r cymysgedd sgiliau ar gyfer y sifft nos ar y Ward Dderbyn i sicrhau bod digon o gapasiti gan y nyrsys cofrestredig i ddiwallu anghenion y grŵp cleifion.

Roedd gan y tair ward Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn un nyrs gofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd bob un, yn ogystal ag un gweithiwr cymorth gofal iechyd ychwanegol a oedd yn gallu gweithio ar draws y tair ward yn ôl y gofyn. Yn ystod sifftiau'r dydd, roedd o leiaf tri aelod o staff ar bob ward, ac o leiaf un nyrs gofrestredig ar bob ward.

Roedd yn amlwg yn ystod ein harsylwadau bod y staff ar draws y wardiau pobl hŷn yn brysur iawn ac nad oedd ganddynt lawer o amser i ddiwallu anghenion yr holl gleifion yn ystod ein harolygiad. Un bore, gwelsom y staff yn cael eu symud o gynorthwyo'r cleifion i fwyta eu brecwast i gynorthwyo claf arall a oedd yn dangos ymddygiadau heriol i godi o'r gwely. Yn ystod y nos, gwelsom y staff yn ffonio o amgylch y wardiau iechyd meddwl eraill i gael gafael ar aelod staff ychwanegol i fynd â chlaf at wardiau'r ysbyty cyffredinol wedi iddo ddisgyn yn un o'r wardiau iechyd meddwl.

Mae'n amlwg nad yw'r lefelau staffio presennol yn caniatáu'r staff i ofalu a rhoi cymorth i'r grŵp cleifion yn rhwydd oherwydd anghenion ac ymmdygiadau anghyson y cleifion unigol. Golygai hyn fod anghenion rhai cleifion nad oeddent yn cael eu diwallu wrth i'r staff gynorthwyo cleifion eraill; oherwydd hyn, roedd risg diogelwch posibl i gleifion ac i'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r niferoedd staff a'r cymysgedd sgiliau ar gyfer wardiau lechyd Meddwl Pobl Hŷn i sicrhau bod digonedd o staff i ofalu a chefnogi'r grŵp cleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, ac roedd gan y staff larymau pe bai angen galw am gymorth. Fodd bynnag, nid oedd system larwm galw am nyrs yn ystafelloedd gwely'r cleifion nac yn y mannau cleifion.

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd yr asesiadau o bwyntiau clymu yn gyfredol; cadarnhaol oedd nodi bod y rhain wedi cael eu cwblhau yn ddiweddar yn yr ysbyty iechyd meddwl drwyddi draw. Ym mis Mehefin 2016, rhoddwyd Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol o ran pwyntiau clymu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG. Cawsom ein hysbysu gan yr uwch-reolwyr yn ystod y sesiynau adborth yn dilyn yr arolygiad bod y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r hysbysiad hwn a bod camau yn cael eu gweithredu o ganlyniad iddo.

Roedd yn gadarnhaol nodi ers ein harolygiad diwethaf bod dull gwahanol o ran atodi eitemau ar yr hysbysfyrddau yn y mannau i gleifion, yn hytrach na defnyddio pinnau bawd, wedi cael ei gyflwyno mewn rhai mannau. Roedd hyn wedi gwaredu ar y risg posibl o achosi niwed i gleifion gan y pinnau bawd.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom fynegi ein pryderon ynglŷn â'r man lle'r oedd claf wedi'i neilltuo i dderbyn nyrsio rhwystrol ar Ward Seren. Roedd y man wedi'i leoli mewn ardal brysur o'r ward rhwng ystafelloedd cymunol y cleifion, a gallai claf arall gael mynediad ato yn rhwydd, boed hynny'n fwriadol neu o ganlyniad i ddrysu.

Yn ogystal â hyn, roedd dodrefn meddal yn yr ystafell, a fyddai'n anodd eu glanhau, ac nid oedd unrhyw gyfleusterau golchi dwylo hygyrch iawn ar gael yn y man lle'r oedd y claf wedi'i neilltuo i dderbyn nyrsio rhwystrol. Roedd y man yn cynnwys ffenestri a oedd yn cysylltu â'r ystafelloedd cymunol cyfagos, ac er bod llenni yno i gynnig preifatrwydd rhag yr ystafelloedd hyn, roedd hyn yn cynnig ond ychydig o breifatrwydd ar gyfer y claf. Gwelsom fod y drws i'r man hwn ar agor i'r mannau cymunol drwy gydol yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithdrefnau nyrsio rhwystrol ar gyfer y wardiau lechyd Meddwl Pobl Hŷn i sicrhau bod camau rhagofal priodol yn cael eu cymryd i gynnal a chadw diogelwch y cleifion a'r staff.

Y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gwaith y tîm amlddisgyblaethol, gan nodi nifer o ddisgyblaethau a oedd yn bresennol mewn cyfarfodydd, gan gynnwys meddygon, uwch-staff nyrsio, staff iechyd galwedigaethol, staff y fferyllfa, a'r timau triniaeth yn y gymuned. Dywedodd y staff fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol, a gofynnir am safbwyntiau proffesiynol ac fe'u gwerthfawrogir.

Cynhelir rowndiau ward yn rheolaidd ar draws y wardiau iechyd meddwl a phob dydd ar y Ward Dderbyn o ganlyniad i aciwtedd a throsiant y cleifion.

Fel y gwelsom ym mis Hydref 2015, roedd sawl un o'r wardiau, gan gynnwys yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, nad oedd ganddynt ymgynghorydd arweiniol. Ar adeg ein hymweliad, roedd hyd at bedwar ymgynghorydd ar rai wardiau, a phob un yn gofyn am ei gyfarfodydd rowndiau ward ei hun. Gwnaethom nodi ers ein harolygiad diwethaf bod y bwrdd iechyd wedi symud ymlaen â'r gwaith o adolygu a gweithredu newidiadau o ran trefniadau ynglŷn ag ymgynghorwyr ar gyfer yr Uned Iechyd Meddwl. Roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod y newidiadau yn mynd ar y trywydd iawn ac yn fuddiol i ofal y claf.

Dywedodd staff eu bod yn mynychu cyfarfodydd staff yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd trosglwyddo sifft dyddiol a diwrnodau i ffwrdd ar gyfer y tîm. Ers ein harolygiad diwethaf, mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno proses newydd ar gyfer trosglwyddiadau sifft, a gafodd ei gweithredu ar draws y wardiau iechyd meddwl. Roedd y staff bellach yn cofnodi ac yn cadw'r wybodaeth ynglŷn â throsglwyddiadau sifft.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd ystafell wely gan bob claf, ac roedd gan rai ystafell wely sengl â chyfleusterau en suite, ac roedd eraill yn byw mewn ystafell â dau neu bedwar gwely ar ffurf ystafell gysgu. Dywedodd cleifion fod staff, ar y cyfan, yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas, ac yn cnocio ar ddrws eu hystafelloedd gwely cyn mynd i mewn.

Gwnaeth ein harolygiad o'r amgylchedd nodi nifer o faterion ynglŷn â phreifatrwydd ac urddas. Nid oedd llenni rhwng y gwelyau yn un o'r ystafelloedd dau wely ar y ward dderbyn. Felly, pe bai claf am ddadwisgo neu newid ei ddillad, nid oedd preifatrwydd er mwyn iddo wneud hynny. Er bod mater tebyg wedi codi o'r blaen ym mis Hydref 2015, roedd hwn yn ddigwyddiad newydd ar gyfer yr ystafell benodol hon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod llenni preifatrwydd yn cael eu gosod rhwng gwelyau yn yr ystafelloedd gwely a rennir, a'u hailosod fel mater o flaenoriaeth pan nad ydynt wedi'u gosod.

Roedd yn dda gennym nodi bod y cleifion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty. Er bod teulu a ffrindiau'n gallu dod i weld eu perthnasau, roedd lle ar gyfer amser preifat ar y wardiau'n gyfyng. Ni châi ymwelwyr fynd i'r ystafelloedd gwely, felly roedd yr ystafell fwyta, y lolfa ac unrhyw ystafelloedd ymwelwyr yn cael eu defnyddio. Dywedodd rhai cleifion eu bod yn gallu gadael y ward gyda theulu a ffrindiau.

Roedd ystafell ymweld ar gael i gleifion a oedd yn addas i blant; yn anffodus, lleolwyd hon ar Ward 22, ac nid yw hyn yn ddelfrydol gan y byddai'n rhaid i blant fynd heibio ardal y ward i gyrraedd yr ystafell hon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried y posibilrwydd o adleoli ystafell ymweld y plant i fan lle na fydd yn rhaid i ymwelwyr fynd drwy ward.

Roedd cleifion yn cael defnyddio ffonau symudol er mwyn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Dywedodd cleifion a staff y gellid defnyddio ffonau'r ward er mwyn cysylltu â pherthnasau, ac roedd ffonau talu ar y wardiau.

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, gwnaethom nodi nad oedd y ffôn talu ar Ward 22 yn cynnwys set law. Ers yr arolygiad hwnnw, mae'r ysbyty wedi gwneud trefniadau eraill i ganiatáu cleifion i ddefnyddio ffôn ac wedi cael gwared ar yr hen ffôn talu.

Roedd gan bob swyddfa ar y wardiau *hysbysfwrdd cipolwg ar statws cleifion* yn arddangos gwybodaeth gyfrinachol yng nghyswllt pob claf y gofelir amdano ar y ward. Roedd yn gadarnhaol nodi ers ein harolygiad diwethaf bod yr holl wardiau bellach yn cynnwys cyfleuster i guddio'r wybodaeth gyfrinachol pan nad oedd yr hysbysfyrddau'n cael eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom ar sawl un adeg nad oedd rhai aelodau staff yn gorchuddio'r byrddau ar ôl eu defnyddio; felly byddai modd o weld y wybodaeth gyfrinachol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa staff ynghylch yr angen i sicrhau bod *yr hysbysfyrddau cipolwg ar statws cleifion* yn swyddfeydd y wardiau yn cael eu gorchuddio pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Nid oedd yr ystafell lle'r oedd y claf wedi'i neilltuo i dderbyn nyrsio rhwystrol yn cynnwys unrhyw wardrobau nac unrhyw ddodrefn arall i gadw dillad y claf. Cadwyd dillad y claf yn anurddasol mewn bagiau du o fewn yr ystafell ar y llawr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn gallu cadw ei ddillad yn briodol.

Cawsom ein hysbysu gan y staff a pherthnasau'r cleifion bod ymweliadau ond yn gallu digwydd wrth ochr gwlâu ar Ward Seren; cawsom ein hysbysu bod hyn er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Er bod hyn yn addas i gleifion ag ystafell wely unigol, nid yw hyn yn wir o ran cleifion sy'n byw mewn ystafelloedd cysgu a rennir. Cawsom ein hysbysu gan berthnasau'r cleifion y gall ystafelloedd cysgu fod yn brysur ac yn swnllyd yn ystod amseroedd ymweld ac nad oeddent yn teimlo bod cleifion na'u teuluoedd yn ystyried bod y trefniadau presennol yn addas.

Gwnaethom drafod hyn gydag aelodau staff ac uwch staff ac roedd yn amlwg bod anghysondebau o ran y trefniadau ymweld. Dywedodd rhai aelodau staff fod yn rhaid i gleifion aros yn eu hystafelloedd gydag ymwelwyr a dywedodd aelodau staff eraill y gallai'r ymwelwyr hynny fynd gyda'r cleifion i'r coridorau yn y wardiau ond nid i'r lolfeydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer ymwelwyr yn Ward Seren i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith.

Therapïau a gweithgareddau i gleifion

Wardiau Iechyd Meddwl Oedolion (rhwng 18 a 65 mlwydd oed)

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt ddigon o bethau i'w gwneud, ac y gofynnwyd iddynt yr hyn yr hoffent ei wneud. Roedd gan yr Uned Iechyd Meddwl fan lle'r oedd cleifion yn gallu cael mynediad at gampfa, bwrdd pŵl, celfau a chrefftau, a chegin. Yn ogystal â'r ddau dîm nyrsio ar y ward a oedd yno ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion, roedd dau therapydd galwedigaethol, nyrs ymarfer corff, a nyrs therapiwtig. Un gwelliant a wnaed ers ein harolygiad diwethaf oedd y seicolegydd clinigol a oedd ar gael ar gyfer y gwasanaeth iechyd meddwl.

Ar y wardiau, roedd staff yn cynnig gweithgareddau i'r cleifion, a oedd yn cynnwys bingo, a dywedwyd wrthym fod posau jig-so a gemau bwrdd ar gael.

Gwelsom sawl un o'r rhai ar y wardiau yn ystod ein harolygiad; fodd bynnag, ni welsom y cleifion yn eu defnyddio'n aml.

Roedd car pŵl ar gael i'r uned, a dywedodd staff wrthym eu bod wedi'i ddefnyddio ar adegau ar gyfer gwibdeithiau i'r gymuned, yn ogystal ag apwyntiadau gofal iechyd gyda'r deintydd a'r optegydd.

- Roedd cleifion a chanddynt seibiant Adran 17, a'r rhai a oedd yn gleifion anffurfiol,[2] yn gallu defnyddio eu hamser i fynd allan am dro, neu i fynd i siopa yn yr ardal leol. Gwnaethom siarad â nifer o gleifion a wnaeth gadarnhau eu bod yn gallu gwneud hyn a bod gadael y wardiau yn brofiad cadarnhaol iddynt.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom sesiwn ymlacio'n cael ei chynnal ar Ward 21. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a oedd wedi mynychu'r sesiwn hon pa mor llesol yr oeddent wedi ei chael.

Roedd y tîm therapi galwedigaethol a leolir yn yr Uned Iechyd Meddwl yn cynnal asesiadau cleifion, gan gynnwys pan gawsant eu derbyn, ar gyfer cleifion ar y ward dderbyn, Ward 21, Ward 22, a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Roedd y therapïau a'r gweithgareddau a oedd ar gael ar y wardiau'n cynnwys ymwybyddiaeth fyfyriol,[3] therapi gwybyddol ymddygiadol,[4] a chrefftau. Dywedodd staff therapi galwedigaethol wrthym fod y grwpiau gweithgareddau a therapïau'n cael eu newid yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y grŵp cleifion.

. Roedd y gwasanaeth iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn yn gwneud atgyfeiriadau i wasanaeth therapi galwedigaethol cyffredinol y bwrdd iechyd.

Roedd mynediad at wasanaethau eraill, gan gynnwys deintydd, optegydd a phodiatrydd, yn cael ei drefnu ar gyfer cleifion a oedd angen apwyntiadau.

Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth eiriolaeth trwy'r ward dderbyn. Roedd posteri a oedd yn hysbysebu gwasanaethau eiriolaeth a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn weladwy ar y

[2] Claf anffurfiol yw claf sydd wedi cytuno i ddod i'r ysbyty, neu i aros ynddo o'i wirfodd. Nid ydynt yn cael eu cadw yn yr ysbyty o dan bwerau Deddf Iechyd Meddwl 1983.
[3] Mae ymwybyddiaeth fyfyriol yn ddull integreiddiol, sy'n seiliedig ar y meddwl a'r corff, sy'n helpu pobl i reoli eu meddyliau a'u teimladau. Mae defnydd o'r dull hwn yn mynd yn fwy cyffredin mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae NICE yn ei argymell fel arfer ataliol ar gyfer pobl sy'n dioddef o byliau cylchol o iselder. Mae mwy o wybodaeth yn http://www.mentalhealth.org.uk/help-information/mental-health-a-z/M/mindfulness/
[4]Mae therapi gwybyddol ymddygiadol yn therapi siarad sy'n gallu eich helpu i reoli eich problemau trwy newid y ffordd yr ydych yn meddwl ac yn ymddwyn.

wardiau, ac roedd y rhan fwyaf o gleifion yn gwybod amdanynt neu wedi'u defnyddio.

Dywedodd cleifion a'r staff fod eiriolwyr yn ymweld yn rheolaidd â'r wardiau; fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oedd eiriolwyr yn mynychu'r uned yn rheolaidd a bod yn rhaid i gleifion, neu'r staff ar eu rhan, wneud atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ar gyfer pob claf.

Wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn

Yn ystod ein hamser ar y wardiau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn, gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd urddasol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y rhyngweithio ond er mwyn cefnogi'r cleifion gyda'u gweithgareddau o ddydd i ddydd, megis gwisgo, hylendid personol, bwyta, ac ati. Ni welsom unrhyw ymyriadau strwythuredig ar sail tystiolaeth yn cael eu cynnal, megis Therapi Ysgogi Gwybyddol.[5]

Gwnaethom siarad ag aelodau staff a pherthnasau cleifion, a ddywedodd hefyd nad oedd llawer gan y cleifion i'w gwneud ar y ward ac roedd rhyngweithiadau â staff yn gyfyngedig, ac yn aml roedd y cleifion yn eistedd yn syllu i'r gofod neu at y teledu. Dywedodd rhai aelodau staff yr oeddent am ddarparu a gwneud gweithgareddau arwyddocaol â'r cleifion ond nad oedd ganddynt ddigon o amser i wneud hynny.

Dylai gweithgareddau a symbyliad priodol gael eu darparu ar gyfer cleifion er mwyn eithafu ar eu profiad o dderbyn gofal ar y ward. Nid oedd hyn yn amlwg yn ystod ein harolygiad. Er na nodwyd unrhyw weithgaredd arwyddocaol yn ystod yr arolygiad, dywedodd rhai aelodau staff fod y cynorthwyydd therapi galwedigaethol newydd yn cyfrannu rhywfaint i'r wardiau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgareddau therapiwtig sydd ar gael i'r cleifion ar y wardiau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn.

Ystafelloedd Clinigol a Rheoli Meddyginiaethau

Roedd gan y staff ar yr holl wardiau fynediad at Bolisi Rheoli Meddyginiaethau y bwrdd iechyd drwy ryngrwyd fewnol y bwrdd iechyd.

Roedd y cypyrddau meddyginiaeth ar draws yr holl wardiau iechyd meddwl yn cael eu cloi yn briodol er mwyn storio meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd yr

[5]Diben Therapi Ysgogi Gwybyddol yw gwella sgiliau gwybyddol ac ansawdd bywyd pobl sydd â dementia drwy weithgareddau megis categoreiddio, cysylltu geiriau, a thrafod am faterion cyfoes.

holl gypyrddau cyffuriau a reolir yn ddiogel a'r cofnodion yn y llyfr cyffuriau a reolir yn cael eu llenwi'n gywir.

Er bod pob un oergell feddyginiaeth ar wahân i un yn cynnwys clo, naill ai roedd yr allwedd ar gyfer y clo yn y drws neu roedd yr allwedd ar goll. Golygai hyn nad oedd yr oergelloedd meddyginiaeth na'u cynhwysion wedi'u cloi'n ddiogel; gallai hyn olygu y bydd meddyginiaethau'n cael eu symud heb roi cyfrif amdanynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl feddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac y gellir rhoi cyfrif amdanynt.

Nid oedd unrhyw offer i fesur neu gofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth ar gael i'r staff. Mae hyn yn golygu nad oedd y bwrdd iechyd yn gallu sicrhau bod yr holl feddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd sy'n ofynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gallu monitro a chofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth ar draws pob un o'r wardiau iechyd meddwl.

Yn dilyn ein harchwiliad o'r siartiau meddyginiaeth, gwnaethom nodi bod yr holl wardiau yn hepgor meddyginiaethau nad oeddent yn cael eu harwyddo gan nyrsys yn y sampl o siartiau meddyginiaeth a wiriwyd gennym. Yn ystod y broses arolygu, gwnaethom siarad â rheolwyr y ward i drafod yr hepgoriadau hyn a'r mesurau rheoli ac archwilio y gellid eu rhoi ar waith gan dimau'r wardiau. Gwnaethom nodi bod rhai fferyllwyr yn tynnu sylw at yr hepgoriadau yn ddyddiol; fodd bynnag, roedd rhai eraill nad oeddent yn gwneud felly, a dylai'r dull a ddefnyddir fod yn gyson er mwyn sicrhau bod yr holl fferyllwyr yn tynnu sylw at hepgoriadau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses archwilio gyson ynglŷn â gweinyddu meddyginiaeth yn cael ei gweithredu ar draws yr uned iechyd meddwl.

Gwnaethom nodi yn yr ystafelloedd clinig ar gyfer yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig a Ward Seren bod y materion amgylchedd ffisegol o'n harolygiad diwethaf wedi derbyn sylw. Fodd bynnag, ar y ddwy ward, nid oedd modd o osod y trolïau meddyginiaeth yn sownd at y wal o fewn yr ystafelloedd clinig, a

oedd yn golygu y gallai unrhyw un a oedd yn mynd i'r ystafelloedd clinig symud y trolïau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y trolïau meddyginiaeth yn gallu cael eu gosod yn sownd o fewn yr ystafelloedd clinig.

Bwyd a maetheg

Wardiau Iechyd Meddwl Oedolion (rhwng 18 a 65 mlwydd oed)

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau'r bwyd a oedd yn cael ei weini yn yr ysbyty. Roedd pedwar pryd o fwyd y dydd yn cael eu cynnig i gleifion, gan gynnwys brecwast, cinio, te a swper.

Roedd y brecwast yn cynnwys grawnfwydydd, tost a diodydd. Roedd grawnfwydydd yn cael eu hanfon o'r gegin ac roedd y staff ar y ward yn gwneud tost ar gyfer y cleifion. Roedd cinio a the'n cael eu gweini gan staff arlwyo, ac roedd swper yn cynnwys brechdanau neu dost a wneid gan staff y ward.

Roedd bwydlen ar gael er mwyn i gleifion ddewis yr hyn yr oeddent am ei fwyta. Nid oedd cleifion ar y ward dderbyn yn dewis ymlaen llaw. Dywedodd y staff wrthym oherwydd bod y cleifion ar y Ward Dderbyn fel arfer yn symud ymlaen o fewn saith i ddeg diwrnod, byddai'r cleifion yn dewis eu bwyd pan oedd y troli bwyd yn cyrraedd y ward. Yn wahanol i'n harolygiad diwethaf, nid oedd pryderon gan y cleifion y buom yn siarad â nhw o ran y trefniant hwn a dywedodd y staff fod digon o ddewis ar gael yn aml ar gyfer y cleifion.

Lle bo angen, roedd staff yn gallu gofyn i ddeietegydd sicrhau bod deiet claf yn briodol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a'r staff fod meintiau'r dogn yn foddhaol a bod dewisiadau bwyd poeth ac oer ar gael amser cinio ac amser te, gan gynnwys prydau bwyd poeth â dewis o gig neu opsiwn llysieuol, saladau, brechdanau, tatws siaced, a phwdinau.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn darparu ar gyfer cleifion a chanddynt anghenion deietegol penodol. Roedd opsiynau diabetig a deietau bwyd meddal yn cael eu darparu ar gyfer cleifion a oedd eu hangen. Gwnaethom nodi bod dewisiadau llysieuol ar gael ar y bwydlenni; ni chodwyd unrhyw bryderon gennym ni o ran argaeledd y rhain, sy'n wahanol i'n harolygiad diwethaf.

Roedd cleifion yn gallu prynu a storio eu byrbrydau a'u diodydd eu hunain. Roedd oeryddion dŵr ar gael er mwyn i gleifion gael mynediad at ddŵr yfed, ac roedd amseroedd gosod ar waith pan oedd cleifion yn cael diodydd poeth.

Wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn

Gwnaethom nodi bod system arlwyo newydd wedi cael ei gweithredu ar y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, a ddechreuodd tua wyth wythnos cyn ein harolygiad. Gwnaeth y staff ar Ward Seren a'r Uned Gofal Estynedig fynegi eu pryderon o ran y trefniadau newydd, ac roeddent o'r farn nad oeddent yn gweithio ar y cyfan ar gyfer y grŵp cleifion ar y ddwy ward hyn. Fodd bynnag, dywedodd y staff ar Uned Dewi Sant fod y system hon yn gweithio'n fwy effeithiol.

Y staff arlwyo oedd yn dod â'r bwyd i'r ward, ond roedd hyn yn dibynnu ar y nifer o staff arlwyo a oedd ar gael, ac nid oedd hyn bob amser ar droli poeth gan fod angen dau aelod o staff i symud y rhain. Hefyd, nid oedd y bwyd wedi'i orchuddio bob amser â gorchudd thermo. Roedd y ddau fater hyn yn golygu nad oedd bwyd y cleifion yn cael ei weini iddynt ar dymheredd addas na chynnes.

Cawsom ein hysbysu hefyd mai ond cyflenwad cyfyngedig o fyrbrydau oedd ar gael ar gyfer y wardiau, ac nad oedd unrhyw fwydydd bys a bawd ar gael ers y newidiadau diweddar. Nid oedd unrhyw ffrwythau yn cael eu cynnig yn rheolaidd ar y wardiau iechyd meddwl pobl hŷn, ond gellid gofyn am ffrwythau ar ran cleifion

Dywedwyd wrthym os nad oedd cleifion yn codi mewn pryd ar gyfer brecwast, nid oedd y staff arlwyo yn gallu gadael eitemau brecwast ar gyfer cleifion. Arweiniodd hyn at staff y ward yn cael cleifion allan o'r gwely cyn eu hamser deffro naturiol. Gwelsom un claf a oedd yn cael trafferth i gadw'n effro yn ystod ei frecwast gan fod y staff wedi'i godi er mwyn sicrhau na fyddai'n colli ei frecwast. Mae codi cleifion i ddiwallu anghenion y system arlwyo yn amhriodol.

Cawsom ein hysbysu hefyd nad oedd unrhyw wasanaeth prydau a gollwyd ar gael i'r cleifion; os nad oedd claf yn gallu bod yn bresennol i gael bwyd ar yr amseroedd a benodwyd, byddai modd o roi brechdan. Fodd bynnag, efallai nad yw hyn yn briodol pe byddai anghenion deietegol gan glaf, megis bwyd meddal, neu anawsterau llyncu.

Nodwyd gennym hefyd nad oedd cwpanau na gwydrau ar gael yn rhwydd bob amser ar y wardiau i gynnig diodydd i gleifion. Er bod y staff yn gallu casglu'r rhain o'r brif gegin, byddai hyn yn cymryd adnoddau prin y staff oddi ar y ward. Gwnaethom nodi ar un diwrnod o'r arolygiad nad oedd unrhyw ddiodydd wedi bod ar gael i'r cleifion ers nifer o oriau. Gwnaethom godi ein pryderon ar

unwaith o ran y sefyllfa amhriodol a pheryglus hon â'r uwch staff o fewn y bwrdd iechyd a chafodd ei chywiro ar unwaith.

Drwy gydol yr arolygiad, gwnaethom nodi bod y byrddau bwydlenni ar y wardiau yn wag. Gwelsom aelodau staff yn dewis bwyd y cleifion heb holi'r cleifion; ar sail ein trafodaethau, roedd yn amlwg bod hyn yn arfer cyffredinol. Roedd hyn yn atal cleifion rhag cael y cyfle i ddewis pa fwyd yr oeddent yn dymuno ei gael.

Gwelsom yr aelodau staff yn cynorthwyo cleifion gyda'u prydau pan fo angen. Fodd bynnag, nid oedd cyllyll a ffyrc na llestri a oedd wedi'u haddasu'n arbennig ar gael yn rhwydd ar y wardiau, a gallai rhai cleifion elwa o'u defnyddio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r bwyd a maeth a ddarperir ar gyfer y wardiau lechyd Meddwl i Bobl Hŷn.Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod:

- **Prydau bwyd y cleifion yn cael eu gweini ar y tymheredd cywir**
- **Diodydd ar gael yn rhwydd ar gyfer cleifion drwy'r amser**
- **Byrbrydau ar gael ar gyfer cleifion**
- **Ffrwythau ar gael i gleifion**
- **Trefniadau addas ar waith ar gyfer cleifion nad oes modd iddynt fod yn bresennol ar gyfer eu prydau, gan gynnwys brecwast**
- **Cleifion yn cael y cyfle i ddewis eu prydau, a bod y dewis yn cael ei gynnig ar ffurf addas**
- **Cyllyll a ffyrc a llestri sydd wedi'u haddasu'n arbennig ar gael ar y wardiau.**

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu'r ystadegau ynglŷn â hyfforddiant staff ar gyfer y wardiau iechyd meddwl yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Roedd yn amlwg bod y ffigyrau hyn wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad diwethaf. Roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn gadarnhaol iawn o ran y cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a oedd ar gael iddynt o fewn y bwrdd iechyd.

Er bod hyfforddiant wedi cael ei gwblhau, roedd y bwrdd iechyd yn mynd drwy'r broses o drosglwyddo'r cofnodion hyfforddiant o'r cofnodion wardiau unigol i un system ganolog. Golygai hyn nad oedd y system ganolog yn gyfredol bob amser, ac roedd yn dangos cyfradd gwblhau a oedd yn is na'r hyn a ddynodwyd gan gofnodion y wardiau. Gwnaeth y staff yn ystod ein harolygiad a'r uwch-reolwyr yn ystod y sesiynau adborth gadarnhau bod y bwrdd iechyd yn symud ymlaen i sicrhau bod yr holl gofnodion hyfforddiant yn cael eu cadw ar system ganolog, a fyddai'n hwyluso'r broses o ddadansoddi'r niferoedd a oedd wedi cwblhau hyfforddiant a bylchau.

Roedd system ar waith er mwyn i staff gael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol, a chadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol. Roedd y cyfraddau cwblhau yn uchel, a phan nad oeddent wedi cael eu cwblhau, roedd y dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd arfarnu wedi'u cadarnhau mewn dyddiaduron unigolion.

Roedd system ar waith ar gyfer goruchwylio staff, ac roedd sesiynau'n cael eu cynnal rhwng pob pedair a chwe wythnos. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu dogfennu a bod y trafodaethau'n ystyrlon.

Cododd rhai aelodau staff eu pryderon o ran y Rhaglen Diwtoriaeth ar gyfer nyrsys cofrestredig sydd newydd gymhwyso. Roeddent o'r farn nad oedd nyrsys cofrestredig a oedd newydd gymhwyso bob amser yn cael y cymorth priodol i gwblhau'r Rhaglen Diwtoriaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r Rhaglen Diwtoriaeth i sicrhau bod nyrsys cofrestredig sydd newydd gymhwyso yn cael y cymorth priodol.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer pump o'r cleifion yn Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Roedd pob un o'r pum set o ddogfennau wedi bodloni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer y Cynllun Gofal a Thriniaeth o dan y Mesur Iechyd Meddwl. Roedd yn amlwg bod y dogfennau wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf ym mis Hydref 2015. Fodd bynnag, roedd nifer o systemau cofnodi electronig ar waith i gofnodi'r wybodaeth hon. Golygai hyn y byddai angen gwybod nid yn unig sut i ddefnyddio'r system er mwyn cael gafael ar yr holl ddogfennau perthnasol, ond byddai'n rhaid gwybod pa wybodaeth a oedd ar ba system hefyd. Roedd yn dasg feichus i gael yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol ar gyfer y cynlluniau gofal a thriniaeth.

Gwelsom hefyd fod rhai staff yn argraffu copïau papur er hwylustod cyfeirio. Fodd bynnag, roedd ambell gopi papur yn cael ei ddiweddaru ond ni wnaed hynny ar y system electronig; felly nid oedd y system electronig fyw yn gyfredol bob amser, a gallai hyn effeithio ar y ddarpariaeth o ofal ar gyfer cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r systemau dogfennu electronig er mwyn symleiddio mynediad.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl: **Cynllun Gwella**

Bwrdd Iechyd: **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Ysbyty: **Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg**

Dyddiad yr Arolygiad: **11 a 13 Mehefin 2016**

Yr hyn y mae angen ei wella	Camau gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod teledu newydd yn cael ei osod ar y Ward Dderbyn.	Mae teledu newydd bellach wedi'i osod.	Rheolwr y Ward Dderbyn	Cwblhawyd
Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau toiled, cawod, a bath ar Ward 21 a Ward 22 i sicrhau eu bod yn addas i'w diben.	Mae rhaglen y cytunwyd arni ar waith i ailosod yr holl gawodydd ar draws yr unedau a chwblhawyd gwaith ailwampio ar dri chawod hyd yn hyn. Trafodwyd yn rheolaidd yng nghyfarfod yr ystadau i reoli'r rhaglen waith hon.	Rheolwyr ward	Ebrill 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cabinetau cegin sydd wedi torri ar y Ward	Hysbyswyd yr adran ystadau fel y gallant	Rheolwr y Ward	Hydref 2016

Dderbyn yn cael eu trwsio neu'n cael eu newid.	wneud y gwaith trwsio. Caiff hyn ei fonitro gan reolwr y ward a thrwy gyfarfodydd misol yr ystadau.	Dderbyn	
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu mynediad i'r ardd er mwyn diwallu anghenion unigol y cleifion ac osgoi gweithredu arfer sefydliadedig.	Er mwyn adolygu mynediad i'r man yn yr awyr agored ar gyfer cleifion yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, rydym yn archwilio ffyrdd gwahanol i ddiwallu anghenion mynediad unigol cleifion o fewn ein lefelau staffio presennol. Mae cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiect garddio a fydd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith o ddatblygu'r man.	Uwch Nyrs / Rheolwr Ward yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig / Pennaeth Nyrsio Therapydd Nyrsio / Rheolwr Ward 21 a 22	Hydref 2016
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl fannau cleifion, gan gynnwys y mannau cysgu, yn cynnwys clociau sy'n addas ar gyfer y cleifion.	Mae clociau sy'n addas i gleifion â dementia wedi'u lleoli ym mhob un o fannau cymunol y cleifion ar hyn o bryd. Byddwn yn cyfrifo'r costau o ran ychwanegu clociau yn y mannau cysgu ac wedyn ystyried / gweithredu hyn o fewn y cynlluniau gwariant presennol ar gyfer 2016/17.	Uwch Nyrs Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cynorthwyol	Hydref 2016
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gloeon yn gweithio ar gyfleusterau cymunol.	Bydd rheolwr y ward yn nodi ac yn trwsio'r holl glociau diffygiol gyda'r adran ystadau.	Rheolwr Ward Seren / Uwch Nyrs	Hydref 2016

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu mynediad cleifion i'r mannau yn yr awyr agored ar y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn.	Bydd rheolwr y ward a'r adran ystadau yn adolygu ac yn datrys y materion sy'n rhwystro mynediad at y mannau yn yr awyr agored.	Rheolwr Ward Seren / yr Adran Ystadau	Hydref 2016
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r addurniadau yn yr ystafell fwyta ar Ward Seren.	Cynnal adolygiad o'r amserlen ar gyfer addurno o fewn unedau iechyd meddwl i gefnogi'r gwaith cynnal a chadw o fewn yr ardal.	Pennaeth Nyrsio / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau	Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth a'r arwyddion sy'n cael eu harddangos ar Ward Seren yn briodol i'r grŵp cleifion a'u perthnasau.	Byddwn yn adolygu'r holl arwyddion ac yn diweddaru'r hysbysfyrddau.	Rheolwr Ward Seren / Uwch Nyrs	Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu mewnbwn y staff domestig i Ward Seren.	Bydd y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl yn trefnu i gyfarfod â'r Gwasanaethau Gwesty i adolygu ac asesu'r mewnbwn gan aelodau staff y Gwasanaethau Gwesty. Rhoddir ystyriaeth i gynllun adnoddau os bydd angen.	Uwch Nyrs / Pennaeth Nyrsio	Ebrill 2017

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau staffio priodol yn cael eu cynnal ar Ward 21 a Ward 22, a chael cadarnhad na fydd y lefelau hyn yn cael eu lleihau.	Rydym wedi cyflwyno adolygiad i'r gweithredwyr i'w hystyried ac mae angen gwybodaeth ychwanegol. Mae'r lefelau uwch o staff sy'n gweithio yn ystod y nos ar hyn o bryd ar Ward 21 a Ward 22 yn cael eu cynnal gan weithlu y banc nyrsys.	Pennaeth Nyrsio / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau / Gweithredwyr	Tachwedd 2016
Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu y cymysgedd sgiliau ar gyfer y sifft nos ar y Ward Dderbyn i sicrhau bod digon o gapasiti gan y nyrsys cofrestredig i ddiwallu anghenion y grŵp cleifion.	Byddwn yn cyflawni rhagor o waith i adolygu'r lefelau staffio gan gynnwys adolygu'r dull aciwtedd a meincnodi ar draws meysydd eraill.	Pennaeth Nyrsio / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau	Ebrill 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu niferoedd y staff a'r cymysgedd sgiliau ar gyfer y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn i sicrhau bod digon o staff i ofalu am y grŵp cleifion a'u cefnogi.	Byddwn yn cyflawni rhagor o waith i adolygu'r lefelau staffio gan gynnwys adolygu'r dull aciwtedd a meincnodi ar draws meysydd eraill.	Pennaeth Nyrsio / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau	Ebrill 2017

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithdrefnau nyrsio rhwystrol ar gyfer y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn i sicrhau bod camau rhagofal priodol yn cael eu cymryd i gynnal a chadw diogelwch y cleifion a'r staff.	Adolygu gweithdrefnau nyrsio rhwystrol.	Pennaeth Nyrsio / Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward	Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod llenni preifatrwydd yn cael eu gosod rhwng gwelyau yr ystafelloedd gwely a rennir, a'u hailosod fel mater o flaenoriaeth pan nad ydynt wedi'u gosod.	Mae'r holl lenni bellach wedi'u hailosod.		Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd archwilio'r posibilrwydd o symud ystafell ymweld y plant i rywle lle na fydd yn rhaid i ymwelwyr fynd drwy ward.	Byddwn yn adolygu ystafell ymweld y plant ac yn cymryd camau yn ôl yr angen.	Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward	Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa staff ynghylch yr angen i sicrhau bod yr hysbysfyrddau cipolwg ar statws cleifion yn swyddfeydd y wardiau yn cael eu gorchuddio pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.	Anfonwyd nodyn atgoffa i'r holl staff a bydd y neges hon yn cael ei hategu mewn cyfarfodydd tîm ac yn ystod trosglwyddiadau dyddiol.	Rheolwyr ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn	Byddwn yn dechrau ar y gwaith o gyfrifo'r	Rheolwr y ward /	Tachwedd 2016

gallu cadw ei ddillad yn briodol.	costau ac yn archebu dodrefn ar gyfer y man nyrsio rhwystrol ynghyd â blaenoriaethau eraill o fewn y cynllun ariannol ar gyfer 2016/17.	Uwch Nyrs / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau	
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer ymwelwyr yn Ward Seren i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith.	Bydd y polisi i ymwelwyr yn cael ei adolygu a'i gwblhau i sicrhau'r lefel uchaf o breifatrwydd ar gyfer cleifion ac ymwelwyr, yn ogystal â sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n gyson gan yr holl staff.	Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward	Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgareddau therapiwtig sydd ar gael i'r cleifion ar y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn.	Rydym yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd a phenodwyd gweithiwr cymorth therapi galwedigaethol yn ystod y misoedd diweddar.	Uwch Nyrs / Rheolwr y Ward	Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl feddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac y gellir rhoi cyfrif amdanynt.	Mae'r holl gloeon wedi'u gosod ar yr oergelloedd meddyginiaeth.		Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gallu monitro a chofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth ar draws pob un o'r wardiau iechyd meddwl.	Mae pob un o'r ardaloedd bellach wedi archebu thermomedrau i sicrhau y gallwn fonitro'r tymheredd yn yr oergelloedd meddyginiaeth.		Cwblhawyd

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses archwilio gyson ynglŷn â gweinyddu meddyginiaeth yn cael ei gweithredu ar draws yr uned iechyd meddwl.	Byddwn yn atgoffa'r holl staff ynglŷn â chwblhau siartiau meddyginiaeth yn gywir a bydd y fferyllfa yn tynnu sylw at hepgoriadau yn gyson. Bydd hwn yn rhan o'n cynlluniau archwilio rheolaidd.	Rheolwyr ward / Uwch Nyrs / Pennaeth Nyrsio	Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y troliau meddyginiaeth yn gallu cael eu gosod yn sownd o fewn yr ystafelloedd clinig.	Mae'r holl drolïau meddyginiaeth bellach wedi'u gosod yn sownd.		Cwblhawyd
Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r bwyd a maeth a ddarperir ar gyfer y wardiau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod: • Byrbrydau ar gael ar gyfer cleifion • Diodydd ar gael yn rhwydd ar gyfer cleifion drwy'r amser	Mae gan yr holl staff cymwysedig allwedd i gael mynediad 24 awr at y gegin erbyn hyn. Mae byrbrydau ychwanegol yn cael eu dwyn at Ward Seren bob dydd hefyd. Mae cyfleusterau ar gyfer diodydd bellach ar gael drwy gydol y dydd gan fod cyflenwad yn cael ei gadw ar y ward.		Cwblhawyd

• Prydau bwyd y cleifion yn cael eu gweini ar y tymheredd cywir • Ffrwythau ar gael i gleifion • Trefniadau addas ar waith ar gyfer cleifion nad oes modd iddynt fod yn bresennol ar gyfer eu prydau, gan gynnwys brecwast • Cleifion yn cael y cyfle i ddewis eu prydau, a bod y dewis yn cael ei gynnig ar ffurf addas • Cyllyll a ffyrc a llestri sydd wedi'u haddasu'n arbennig ar gael ar y wardiau.	Mae troli diodydd sy'n cael ei gyflenwi gan yr adran arlwyo yn mynd o gwmpas tair gwaith y dydd. Byddwn yn monitro ac yn sicrhau bod: ▪ Prydau bwyd y cleifion yn cael eu gweini ar y tymheredd cywir a'u gwirio'n rheolaidd ▪ Ffrwythau ar gael i'r cleifion ▪ Trefniadau priodol ar waith i gleifion nad ydynt yn gallu bod yn bresennol ar gyfer eu prydau bwyd, gan gynnwys brecwast ▪ Cleifion yn cael y cyfle i ddewis eu prydau, a bod y dewis yn cael ei gynnig ar ffurf addas ▪ Cyllyll a ffyrc a llestri sydd wedi'u haddasu'n arbennig ar gael ar y	Pennaeth Nyrsio / Rheolwyr y Wardiau	Hydref 2016

	wardiau.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r Rhaglen Diwtoriaeth i sicrhau bod nyrsys cofrestredig sydd newydd gymhwyso yn cael y cymorth priodol.	Bydd rheolwyr wardiau yn adolygu'r trefniadau presennol ac yn sicrhau dull cyson sydd o ansawdd uchel ar gyfer y Rhaglen Diwtoriaeth.	Rheolwyr Ward	Hydref 2016
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r systemau dogfennu electronig er mwyn symleiddio mynediad.	Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf bellach yn cymryd rhan mewn ymarfer cwmpasu eang, sy'n edrych ar weithrediad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar draws y gymuned a gwasanaethau iechyd meddwl mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.	Pennaeth Nyrsio / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau	Hydref 2017